DAFYDD G. LLOYD HUGHES ar ôl achau'r cŵn

# Y DAEARGI O WLAD LLŶN



DIM SAESONEG

OES YN WIR, mae gan gŵn eu hachau. Rhai gwerthfawr iawn i fridwyr cŵn. A phetae ci o frîd yn meddu'r gallu i ymresymu fe sylweddolai fod y cronicl pwysig hwnnw, y pedigri, sy'n cofnodi carwriaethau ei rieni (a'u rhagflaenwyr), yn brawf o gynnwys cofrestri bedydd a geni.

Yr hyn a barodd imi ddilyn y trywydd arbennig hwn oedd sylw a ddarllenais flynyddoedd yn ôl wrth olrhain hanes Pwllheli. Mewn newyddiadur a gynhyrchwyd yn y dref yn 1892, y *'Pwllheli Chronicle'* gwelais ddyfyniad o gylchgrawn *'The British Fancier'* i'r perwyl mai Pwllheli oedd gwir gartref y Daeargi Cymreig.

Ategwyd hynny mewn erthygl gan Ioan Mai Evans, *Yr Hen Ddaeargi Cymreig* yn *Y Casglwr* (rhifyn Nadolig, 1984), pan gofnododd sylw gan Walter S. Glynn, gŵr a wnaeth fwy na neb arall, hwyrach, i boblogeiddio'r brîd ar bum cyfandir, mai Pwllheli oedd ei gadarnle.

Fe ddylasai Glynn wybod oblegid fe brynodd lawer iawn o gŵn o Bwllheli, gan gynnwys rhai a ddaeth yn bencampwyr, ac eraill na fuont ar yr uchelfannau eu hunain eithr, serch hynny, a fuont yn gyfryngau i fridio pencampwyr yn eu tro.

Yr oedd gweld fod W.S.Glynn wedi mynegi barn mor gref yn ddigon, hwyrach, o dystiolaeth ynddo'i hun, ond teimlais bod modd cael rhagor o wybodaeth i brofi'r pwynt. Dyma droi ati, felly, i geibio.

* * *

SICRHEAIS o'r Llyfrgell Brydeinig yn Llundain gopi o rifyn 23 Medi 1892 o'r *British Fancier* er mwyn gweld yn union beth ddywedwyd. Darllenais sylwadau, gan awdur na enwyd, ar Sioe Gŵn Pwllheli, a gynhaliwyd ychydig ynghynt, nad oedd y safon ymhlith y Daeargwn Cymreig yn y sioe cyfuwch â'r hyn a fu.

Tybiodd mai'r prif reswm oedd y duedd gan fridwyr, o Loegr a'r America (America, cofier, a'r brîd ond wedi cael ei gydnabod gan y Kennel Club bum mlynedd ynghynt), i ruthro i Bwllheli ('cartref y brîd', yn ôl y gohebydd) pan glywid geirda am anifail ifanc a'i brynu.

Os oedd hynny'n ffaith collodd yr ardal lawer o gŵn. Pe bae'r weledigaeth a'r ewyllys i'w cadw'n ddigon cadarn, byddid wedi sicrhau dyfodol Pwllheli fel canolfan bridio Daeargwn Cymreig o safon am gyfnod go hir.

Ceir enghraifft o'r prisiau a delid gan brynwyr yn y *Cambrian News*, rhifyn 4.2.1887. Gwerthodd Cledwyn Owen genau o'r enw Coblyn, y gorau yn ei ddosbarth yn Sioe Lerpwl a'r gorau, hefyd, o'r holl Ddaeargwn Cymreig oedd yno, am un bunt ar hugain, rhywbeth tebyg i fil o bunnau yn ôl gwerthoedd cyfoes.

Ni wireddodd Coblyn holl obeithion y prynwr oblegid ni lwyddodd i gyrraedd y brig a thyfu'n bencampwr, ond mae'r pris yn dangos rhywfaint o werth ci ifanc a fridiwyd ym Mhwllheli yr adeg honno.

Tra ym Mhwllheli manteisiodd y gohebydd ar y cyfle i fwrw golwg ar fridfa Cledwyn Owen, cyfreithiwr a chlerc yr ynadon a drigai yn Llwynhudol, gan gyfeirio ato fel yr hynafgwr ymhlith bridwyr y Daeargi Cymreig. Rhyw 40 mlwydd oed oedd Cledwyn Owen yn 1892.

Eithr rhaid ystyried fod Rice Owen Pughe, fferyllydd a drygist yn y dref (gŵr a oedd, gyda llaw, yn medru olrhain ei achau ei hun yn ôl at y seithfed ganrif), wedi bridio dau bencampwr ac yn naw mlynedd yn hyn nag Owen. Gwelais sawl cyfeiriad at Pughe fel arbenigwr ar y daeargi.

Mewn gwirionedd yr oedd yn y dref, hefyd, dri arall, megis Thomas M Owen (Siop Glasfryn), William Jones (Sadlar Mawr) a William Davies (Y Gof), ac yr oedd y pump yn o agos o ran oed. Cledwyn Owen oedd yr ieuengaf ohonynt. Yr oedd to arall, Ellis O. Ellis, John Jones (3, Mitre Place), un o deulu Anthony, ac eraill, eisoes yn dilyn yr un llwybrau.

* * *

NID YW'R ffeithiau hynny, o angnrheidrwydd, yn ddigon i fynd bob cam i danseilio'r farn a leisiwyd yn 1882 am safle Cledwyn Owen, eithr maent yn bwyntiau i'w hystyried, oblegid y mae'n o amlwg fod eraill wedi gwneud llawer o waith i ddyrchafu'r daeargi o'i flaen, ar wahân i'r sawl a oedd yn cydoesi ag ef.

Yn 1892 digwyddai Owen fod yn ŵr iawn yn y lle iawn, ond nid oes ronyn o amheuaeth na chwaraeodd y cyfreithiwr ran bwysig iawn yn natblygiad y brîd.

Yr oedd ganddo, hwyrach, fwy o amser a modd na'i gymheiriaid i gynnal ei ddiddordebau. Bu'n ddyfal yn olrhain pob hanes am gŵn addawol ac fe âi i bob cwr o ogledd Cymru i weld un, a'i brynu os oedd yr anifail yn apelio ato. Eithr ni wnâi o hynny, ar unrhyw gyfrif, heb sicrhau fod gwreiddiau'r creadur, ar y ddwy ochr, yn gadarn yng Nghymru.

Roedd hynny'n bwysig oblegid bu llawer, o Saeson yn arbennig, yn ceisio dadlau mai disgynnydd o'r Old English Black and Tan Terrier oedd y Cymro, barn, gyda llaw, sy'n cael ei lleisio'n achlysurol o hyd. Ymateb W.S. Glynn i hynny oedd nad oedd y ci Seisnig yn medru epilio'n gywir, ond ni cheid unrhyw broblem wrth fridio'r Daeargi Cymreig.

Beth bynnag am y farn wrthwynebus derbyniodd y Kennel Club, yn 1887, y Daeargi Cymreig fel brîd arbennig. Diflannodd yr Old English Black and Tan Terrier o olwg y swyddogaeth. Roedd hwnnw'n gam pwysig iawn ymlaen, eithr roedd cynnwys dosbarthiadau ar gyfer y brîd yn y sioeau eisoes wedi galw am benderfyniad ynglyn â safonau.

Derbyniwyd y cyfrifoldeb gan Glwb y Daeargi Cymreig, a sefydlwyd ym Mangor yn 1885, yn ôl rhifyn 6 Chwefror, 1886 o *The Field*. Pan ystyrir y canlyniadau dros y pymtheng mlynedd nesaf y mae'n dra amlwg fod yr anifeiliaid gorau y gellid olrhain eu tras yn ôl i Bwllheli a Llŷn yn mesur yn agos iawn at y safonau a dderbyniwyd gan y Clwb.

* * *

LLE DELFRYDOL i farnu cwn yw sioe gyhoeddus. Yn Newcastle-upon-Tyne fe gynhaliwyd y sioe gwn gyhoeddus gyntaf yn 1859, ond ni welais adroddiad mewn newyddiadur am sioe o unrhyw fath oedd yn cynnwys dosbarthiadau arbennig ar gyfer y Daeargi Cymreig, cyn y sioe flynyddol gyntaf a gynhaliwyd ar 29 a 30 Gorffennaf 1885 yng Nghaernarfon.

Serch hynny y mae'n sefyll i reswm fod caredigion y daeargi wedi bod wrthi'n pwyso a mesur rhinweddau gwahanol anifeiliaid o dro i dro ymhell cyn hynny, ac y mae'n dra thebygol fod rhywbeth yn fras ar yr un llinellau â sioe gŵn wedi cael ei chynnal yn achlysurol ym Mangor, Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Phwllheli, i enwi ychydig o leoedd, yn ystod wythdegau cynnar y ganrif ddiwethaf, onid yn gynharach na hynny.

* * *

I DDYCHWELYD at safonau daeargwn Pwllhelli. Gwelais brawf o'u rhinweddau yn Llyfr y Gre, sef The Welsh Terrier Club Stud Book (Bury St. Edmunds, 1913), gwaith un Percival Forbes Brine. Yn y llyfr hwnnw rhestrir tros dair mil o Ddaeargwn Cymreig y gwyddid amdanynt o bumdegau'r ganrif ddiwethaf hyd ddiwedd 1903.

Ymhlith y rheini pymtheg yn unig oedd wedi ennill llawryf pencampwr, ac o'r pymtheg hynny roedd dim llai na deuddeg gydag un, neu ddau, weithiau rhagor, o'u hynafiaid yn gŵn o Bwllheli a Llŷn, a phump ohonynt wedi cael eu bridio yn y dref, sef Badger a Dim Saesoneg yn 1886 gan R.O. Pughe; Cymro Dewr II yn 1890 gan T.M. Owen, Brynhir; Blossom gan W.S. Glynn (allan o gi a gast o eiddo Cledwyn Owen) yn 1895, a Cambrian Princess gan William Jones yn 1898, y cwbl allan o gŵn lleol.

Y mae'n bosib, hefyd, mai un o Bwllheli oedd y J. Anthony hwnnw a fridiodd Brynhir Buckler yn 1898, gyda'i ast ei hun. Yr oedd cyfartaledd y llwyddiant, ar unrhyw gyfri, yn eithriadol o uchel.

Yn ei erthygl yn *Y Casglwr* yn 1984 roedd Ioan Mai Evans yn dweud mai Cwnhingar Don oedd taid Dim Saesoneg a Vic Bodfel ei nain. Mae'r enwau, fel yr oedd yn awgrymu, yn pwyntio at y tebygolrwydd mai o ddwy o ffermydd Llŷn, ychydig o filltiroedd o Bwllheli, y cafwyd y ddau. Cwnhingar Don a Vic Bodfel oedd rhieni Lady, mam Dim Saesones a Badger, ac eiddo'r bridiwr, Rice Owen Pughe, ei hun.

Llawn mor ddiddorol oedd gweld, yn Llyfr y Gre, mai Button, ci un o hen deulu uchelwrol Nanhoron yn Llyn oedd tad y ddau bencampwr.

* * *

AT HYNNY, onid strôc anfarwol oedd honno gan Rice Owen Pughe yn 1886 yn bridio dau frawd llawn oedd i dyfu'n bencampwyr? Beth, tybed, a gynigiai Ladbroke neu William Hill yn erbyn y fath gyd-ddigwyddiad, ac oni haedda'r gamp ystyriaeth am le o anrhydedd yn y Guinness Book of Records?

Rhydd y dystiolaeth awgrym clir fel y bu tref Pwllheli ar un adeg yn ferw o Ddaeargwn Cymreig, a Chledwyn Owen yn ymhyfrydu wrth adael i gŵn addawol a brynasai o fannau eraill grwydro'r strydoedd gyda thrwyddedi i gryfhau'r stoc.

Erbyn hyn, ysywaeth, prin y gwelir yr hen gŵn bach hyd yn oed yn dynn wrth gadwyn yn y dref, heb sôn am rai'n dilyn eu trwynau. Diflannodd y diddordeb, y brwdfrydedd, y balchder a'r bri i'r pedwar gwynt.

*D.G. Lloyd Hughes, Gwên-y-wawr, New Inn, Pencader, Dyfed SA39 9AZ*

*Hoffwn gael gafael ar The Welsh Terrier Club Stud Book gan P.B. Brine (Bury St. Edmunds, 1913).*